

## Polisi Preifatrwydd

### 1. Cyflwyniad

Mae Am Ddrama – Play On yn gynllun ar y cyd rhwng Theatr Genedlaethol Cymru, Theatr Clwyd a National Theatre Wales gyda'r nod o ddod o hyd i sgriptiau a dramâu newydd, cyffrous gan ddramodwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Bydd Am Ddrama – Play On yn galluogi dramodwyr i anfon eu sgriptiau a'u dramâu anghyhoeddedig yn ddienw at banel eiddgar o ddarllenwyr i gael adborth gwerthfawr. Mae'n bosibl y bydd cyfle i'r sgriptiau mwyaf addawol gael eu datblygu, gan baru'r sgript a'r dramodydd gydag un o'r tri chwmmi sydd yn y sefyllfa orau i'w datblygu, ei chomisiynu a'i chynhyrchu.

Fel aelod o'r cyhoedd, ymarferydd proffesiynol â diddordeb mewn ysgrifennu dramâu newydd, neu fel egin-ddramodydd, dramodydd addawol neu ddramodydd proffesiynol profiadol, rydym wedi ymrwymo i gadw eich data'n ddiogel. Byddwn yn ei ddefnyddio'n unig mewn ffordd sy'n cwrdd â'ch anghenion chi ac yn ein galluogi ni i ddarparu cyfathrebiadau a Gwasanaethau effeithiol ac effeithlon.

Os hoffech ragor o wybodaeth ynghylch RhDDC (GDPR), ewch i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

#### 1.2 Amdanom ni

Bydd eich data personol (unrhyw wybodaeth sy'n eich adnabod chi, neu y gellir adnabod ei fod yn berthnasol i chi'n bersonol) yn cael ei gasglu a'i ddefnyddio gan y prosiect Am Ddrama – Play On.

Bydd data'n cael ei gasglu a'i rannu'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data 2018 a'i rannu rhwng tri phartner y prosiect: Theatr Clwyd, Theatr Genedlaethol Cymru a National Theatre Wales. Bydd Theatr Genedlaethol Cymru yn gweithredu fel Rheolwr Data ar ran y partneriaid yng nghyd-destun cyflwyno sgriptiau. Mae Theatr Genedlaethol Cymru yn elusen a gofrestrwyd yng Nghymru (1106032) ac yn gwmni a gyfyngir gan warant (04784488). Rydym wedi'n lleoli yn Y Llwyfan, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ. Gallwch ein ffonio ar 01267 233882 neu anfon ebost at [post@amddrama-playon.cymru](mailto:post@amddrama-playon.cymru)

### 2. Y data a gesglir gennym ni a'r defnydd a wnawn ohono

Byddwn yn casglu dim ond y data sy'n angenrheidiol i'n galluogi ni i ddarparu'r cyfathrebiadau a'r Gwasanaethau gorau i chi. Gwnawn hyn mewn un o ddwy ffordd: pan fyddwch yn cofrestru i dderbyn gwybodaeth gan y partneriaid, a/neu pan fyddwch yn gwneud cais am ddefnyddio'n Gwasanaethau.

#### 2.1 Cofrestru i dderbyn gwybodaeth

Pan fyddwch yn cyflwyno eich data (enw, cyfeiriad ebost a chod post):

- Drwy'r Ffuflen Gyflwyno ar ein gwefan
- Pan fyddwch yn defnyddio ein Gwasanaethau (ac yn dewis 'optio i mewn' i dderbyn gwybodaeth)

Pan fyddwch yn 'optio i mewn' i dderbyn gwybodaeth mewn digwyddiad, byddwn yn defnyddio'r data hwn i anfon y canlynol atoch chi:

- E-newyddion a Diweddariadau
- Digwyddiadau
- Cyfleoedd i Ysgrifennu Dramâu

Anfonir y rhain yn unol â'r dewisiadau a nodwyd gennych chi.

Trwy ddewis unrhyw un o'r opsiynau hyn, neu'r cyfan ohonynt, rydych yn cydnabod bod yr wybodaeth a ddarperir gennych chi yn cael ei throsglwyddo i'r partneriaid i'w phrosesu'n unol â'u Polisi a Thelerau Preifatrwydd.

## 2.2 Gwneud cais am ddefnyddio ein Gwasanaethau

Pan fyddwch yn gwneud cais am ein Gwasanaethau, byddwn yn casglu eich data (enw, cyfeiriad llawn, cyfeiriad ebost, rhif ffôn, cynnwys y cais a sgrïptiau).

Byddwn yn storio'r data hwn ac yn ei ddefnyddio i ddiddordebau cyfreithlon\* i weinyddu ein Gwasanaethau mewn modd effeithiol, ac i gysylltu â chi ynghylch eu canlyniadau neu mewn ymateb i unrhyw ymholiadau.

Byddwn yn storio'ch gwybodaeth cyn hired ag y bo eich perthynas â ni yn weithredol. Bydd hyn yn ymestyn am sawl blwyddyn fel y gallwn gadw cofnod cywir o'ch gweithgaredd gyda ni dros amser, ac i fonitro patrymau ymgyfranogi yn ein Gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â lleoliad daearyddol. Byddwn yn gweithredu'n barhaus i adolygu pa wybodaeth rydym yn ei dal, a dileu'r hyn nad yw bellach yn angenrheidiol.

Caiff eich data ei gadw am ddim mwy na deuddeg mis gan y darparwyr arbenigol Microsoft Office (ar gyfer gwasanaethau darllen sgrïptiau). Bydd hyn yn ein galluogi i ymgymryd mewn modd effeithiol â'r gwaith gweinyddu a chyfathrebu sy'n angenrheidiol i brosesu eich cais.

Am ragor o wybodaeth, gweler polisi preifatrwydd Microsoft Office a pholisi preifatrwydd Eventbrite.

Yn ddiweddarach, trosglwyddir y data i weinyddion diogel Theatr Genedlaethol Cymru Am Ddrama – Play On, a Microsoft One Drive. Am ragor o wybodaeth, gweler datganiad preifatrwydd Microsoft.

\* Mae diddordebau cyfreithlon yn berthnasol i Am Ddrama – Play On o ran gweithredu a rheoli ein gwaith i'n galluogi i ddarparu Gwasanaeth o'r safon uchaf i chi, a'r profiad gorau a mwyaf diogel. Nid yw hyn yn diystyru eich hawliau preifatrwydd, a gallwch wrthwynebu unrhyw brosesu sy'n seiliedig ar ein diddordebau cyfreithlon.

## 2.3 Monitro Cydraddoldeb

Pan fyddwch yn gwneud cais am ein Gwasanaeth, byddwn hefyd yn gofyn i chi am wybodaeth ddemograffig megis eich enw a'ch rhyw. Caiff hyn ei wahanu oddi wrth eich data personol, ac y mae'n ddiennw. Caiff ei ddefnyddio i fonitro yn erbyn ein targedau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod ein gwaith mor agored a hygyrch â phosib i wahanol grwpiau cymdeithasol.

## 3. Gwefan

Rydym yn defnyddio Google Analytics i gasglu gwybodaeth am bori ar y we. Mae Google Analytics yn defnyddio cwcis i roi manylion i ni megis nifer yr ymweliadau, hyd yr ymweliad, pa beiriant chwilio a ddefnyddir, ac ati. Mae cwci yn derm am becyn o ddata a dderbynnir gan gyfrifiadur, gan ei anfon yn ôl heb ei newid na'i addasu.

Mae'r holl wybodaeth a gesglir yn ddiennw, ac ni ellir ei defnyddio i'ch adnabod chi.

Mae ein gwefan yn cynnwys uwchddolenni i lawer o wefannau eraill. Nid ydym ni'n gyfrifol am gynnwys na swyddogaethau unrhyw un o'r gwefannau allanol hynny (ond gwerthfawrogwn gael gwybod, drwy anfon ebost atom, os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch y gwefannau rydym wedi cysylltu â hwy).

#### 4. Rhannu data

Ni fyddwn byth yn gwerthu eich data personol nac yn ei rannu i bwrpasau marchnata.

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol gydag unrhyw sefydliad arall y tu allan i'r tri sefydliad partner ar y prosiect hwn: Theatr Genedlaethol Cymru, National Theatre Wales a Theatr Clwyd. Yr unig eithriadau yw pan fo hynny'n angenrheidiol i gyflenwi ein Gwasanaethau.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn rhannu eich data gydag is-gontractwyr rydym yn ymddiried ynddynt. Mae rhan o'u contract gyda ni yn cynnwys cynnal eich preifatrwydd.

Rydym yn defnyddio darparwyr arbenigol i gyflenwi ein Gwasanaeth ac i anfon atoch chi yr wybodaeth rydych wedi 'optio i mewn' i'w derbyn. Caiff eich data ei gadw ganddynt hwy cyn hired ag y bo angen i ymgymryd yn effeithiol â'r gwaith gweinyddu a chyfathrebu sy'n angenrheidiol.

#### 5. Sut rydym yn storio ac yn gwarchod eich data

##### 5.1 Storio

Ar gyfer y Gwasanaeth hwn, caiff eich data ei gadw am ddim mwy na deuddeg mis. Mae hyn yn ein galluogi i ymgymryd â'r gwaith gweinyddu a chyfathrebu sy'n angenrheidiol i brosesu eich cais neu gynnig.

##### [Preifatrwydd – preifatrwydd Microsoft](#)

Yn ddiweddarach bydd y data hwn yn cael ei drosglwyddo i weinyddion diogel Theatr Genedlaethol Cymru Am Ddrama – Play On a Microsoft OneDrive.

Mae Theatr Genedlaethol Cymru wedi'i leoli yng Nghymru, ac rydym yn storio ein data o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n bosibl y gall sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i ni drosglwyddo data personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, ond byddwn yn caniatáu iddynt wneud hynny ar yr amod bod eich data'n cael ei ddiogelu'n briodol. Mae Microsoft yn rhan o Darian Preifatrwydd yr UE-UD.

##### 5.2 Gwarchod data

Rydym yn defnyddio amryw o fesurau corfforol a thechnegol i gadw'ch data'n ddiogel ac i atal mynediad anawdurdodedig at eich gwybodaeth personol, neu ddefnydd ohoni, neu ddatgeliad.

Caiff data a basau-data electronig eu storio ar systemau cyfrifiadurol diogel, ac mae gennym reolaeth dros bwy sydd â mynediad at wybodaeth (gan ddefnyddio dulliau corfforol ac electronig).

Yn anffodus, ni all unrhyw gwmni na gwasanaeth warantu diogelwch llwyr. Gall mynediad neu ddefnydd anawdurdodedig, methiant yn y caledwedd neu'r feddalwedd, a ffactorau eraill, beryglu diogelwch gwybodaeth defnyddiwr ar unrhyw adeg.

Staff dan gontract yw'r unig rai sydd â mynediad i'n gweinyddion, sy'n cael eu diogelu gan gyfrinair; newidir y cyfrineiriau'n rheolaidd, a hefyd pan fydd aelod o'r staff yn gadael y sefydliad. Mae ein staff yn derbyn hyfforddiant mewn diogelu data, ac mae gennym set o weithdrefnau diogelu data y mae'n rhaid i staff eu dilyn pan yn trin data personol.

## 6. Dadansoddi eich data

Rydym yn cynnal ymchwil a dadansoddiadau ar ein basau-data i benderfynu ar lwyddiant ein Gwasanaethau i gyrraedd y rhai a chanddynt ddiddordeb mewn gwneud cais amdanynt neu eu defnyddio. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o ymddygiad ac ymatebion, ac adnabod patrymau a thueddiadau, yn enwedig felly leoliad daearyddol yr ymgeiswyr a'r rhai sy'n defnyddio ein Gwasanaethau. Mae hyn yn helpu i ddylanwadu ar ein dull o ddefnyddio ein cyfathrebiadau, a pha mor hygyrch mae ein Gwasanaethau, ac yn gwneud Am Ddrama – Play On yn sefydliad mwy effeithiol ac effeithlon. Mae cael dealltwriaeth o'n hymgeiswyr a defnyddwyr ein Gwasanaethau yn ein helpu i ddarparu gwell profiad.

Rydym yn casglu ystadegau ynghylch agor ebostiadau a chliciau, gan ddefnyddio technolegau o safon diwydiant i'n helpu i fonitro a gwella'r cyfathrebiadau hyn.

Pan fyddwch yn gwneud cais am Wasanaeth, byddwn hefyd yn gofyn i chi am wybodaeth ddemograffig, megis oedran neu ryw. Caiff yr wybodaeth hon ei gwahanu oddi wrth eich data personol ac nid oes modd ei hadnabod. Defnyddir yr wybodaeth i fonitro yn erbyn ein targedau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau bod ein gwaith mor agored a hygyrch â phosib i wahanol grwpiau cymdeithasol.

Mewn unrhyw ddadansoddiad a wneir gennym ni, neu y byddwn yn adrodd arno, ni fyddwn fyth yn eich dynodi chi fel unigolyn.

## 7. Eich hawliau preifatrwydd dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Rydym yn awyddus i sicrhau eich bod yn parhau i reoli eich data personol. Rhan o hyn yw sicrhau eich bod yn deall eich hawliau cyfreithiol, sef:

Yr hawl i gadarnhau p'un ai a ydym yn cadw eich data personol ai peidio ac, os felly, i gael copi o'r wybodaeth bersonol a ddelir gennym ni (y term am hyn yw mynediad gwrthrych data);

Yr hawl i gael dileu eich data (er na fydd hyn yn gymwys lle bo angen i ni barhau i ddefnyddio'r data am reswm cyfreithiol);

Yr hawl i gywiro unrhyw ddata nad yw'n gywir;

Yr hawl i wrthwynebu bod eich data'n cael ei ddefnyddio i bwrpas marchnata neu broffilio.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, neu ynghylch eich data personol, neu os hoffech gael mynediad at eich gwybodaeth, gallwch ebostio [post@amddrama-playon.cymru](mailto:post@amddrama-playon.cymru) neu ysgrifennu at Y Cyfarwyddwr Gweithredol, Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

## 8. Cwynion

Rydym yn mawr obeithio na fydd gennych fyth unrhyw gonsŷrn ynghylch y modd y mae Am Ddrama – Play On yn casglu a defnyddio'ch data personol. Fodd bynnag, os oes gennych gwynion ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â diogelu eich data a hawliau preifatrwydd, gallwch ebostio [Angharad.Leeffe@theatr.com](mailto:Angharad.Leeffe@theatr.com) neu ysgrifennu at Y Cyfarwyddwr Gweithredol, Theatr Genedlaethol Cymru, Y Llwyfan, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb ni, neu os credwch bod eich hawliau diogelu data neu breifatrwydd wedi cael eu torri, gallwch roi gwybod am eich consŷrn i Swyddfa Comisiynydd Gwybodaeth y DU, sy'n rheoleiddio a gorfodi deddfwriaeth diogelwch data yn y DU.

Mae manylion ynghylch sut i wneud hyn ar gael ar eu gwefan, neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ffurflen gwe neu ar y ffôn: 0303 123 1113.

## 9. Newidiadau i'n polisi preifatrwydd

Byddwn yn adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd ac yn sicrhau ei fod yn parhau i ddatgan yn gywir sut a pham rydym yn casglu ac yn cadw eich data. Bydd fersiwn cyfredol ein Polisi Preifatrwydd bob amser yn cael ei osod ar ein gwefan.

Diweddarwyd y Polisi Preifatrwydd hwn ddiwethaf ar 3 Chwefror 2022.